# Coedwigaeth a Chefn Gwlad



**Os ydych chi wrth eich bodd yn yr awyr agored, yn sefyll o dan ganopi o goed neu'n cerdded drwy goetir â'r ddaear wedi'i orchuddio â mwsogl, yna byddai Prentisiaeth mewn Coed a Phren yn ddelfrydol i chi.**

O ddatrys dirgelion gwahanol rywogaethau coed i ddeall sut maen nhw'n ffynnu mewn ecosystemau amrywiol, byddwch yn ymchwilio i galon y goedwig ac yn dysgu celfyddyd coedyddiaeth, meistroli'r sgiliau i ofalu am goed a'u trin mewn tirweddau trefol a naturiol.

Paratowch i gael eich dwylo yn fudr gyda gwaith ymarferol drwy gydol y flwyddyn a'r angen am sgiliau tîm a chyfathrebu da.

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

| Cwrs | Gofynion mynediad | Hyd arferol | Dull astudio ac asesu | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 mewn Coed a Phren | Gweithio mewn diwydiant perthnasol | 18 mis | Asesiad yn y gwaith, gweithlyfrau a gwaith theori | Gweithle |
| Lefel 3 mewn Coed a Phren | Gweithio mewn diwydiant perthnasol, cymhwyster Lefel 2 neu gyfwerth | 21 mis | Asesiad yn y gwaith, gweithlyfrau a gwaith theori | Gweithle |

## Wyddoch chi

**Mae gan y sector coedwigaeth yng Nghymru Werth Ychwanegol Gros blynyddol o £499.3 miliwn ac mae'n cyflogi rhwng 8,500 ac 11,300 o bobl.**

[Cyfoeth Naturiol Cymru, Mehefin 2023]

## Awgrym gorau

**Cysylltwch â busnesau lleol a rhowch gopi o'ch CV iddyn nhw, efallai nad ydyn nhw erioed wedi meddwl am logi Prentis o'r blaen!**